



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## SGILIAU DIGIDOL AR GYFER TREFTADAETH

Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol, [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol](#)

Bydd Josie Fraser yn rhoi sgwrs ar pam mae sgiliau a hyder digidol bellach yn hanfodol i unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y sector treftadaeth. Mae sefydliadau treftadaeth o bob math a maint eisoes yn gwneud defnydd creadigol ac effeithiol o dechnolegau i ennyn diddordeb, addysgu ac ymgysylltu â chymunedau. Mae eraill wedi cymryd y camau cyntaf neu'n ansicr ble i gychwyn.

Yn y brif araith hon, ymdrinnir â'r amrywiaeth eang o ffyrdd y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn bwrw ymlaen â'i huchelgais ar gyfer y sector drwy hybu gallu digidol a datblygu arweinyddiaeth. Mae'r gronfa'n cynnig cyfleoedd niferus i sefydliadau ddod yn rhan o hyn a chael budd ohono.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn credu y dylai pawb sy'n gweithio yn y sector treftadaeth allu gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg i gyrraedd nodau eu sefydliad.

### Bywgraffiad

Technolegydd Cymdeithasol ac Addysgol yw Josie Fraser sydd wedi gweithio ar draws y sectorau addysg, llywodraeth a dinesig i wreiddio arfer arloesol ac effeithiol mewn perthynas â defnyddio technoleg. Dyfarnwyd Aelodaeth Anrhydeddus am Oes o Gymdeithas y Technolegwyr Dysgu iddi yn 2017. Hi yw Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Hyd Ionawr 2020 Josie oedd yr uwch ymgynghorydd technoleg yn yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn gyfrifol am amryw feysydd polisi ar draws llywodraeth ac yn rhyngwladol.

Gallwch ei dilyn hi ar Twitter yn [@josiefraser](#)

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.



[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.